No.

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL

Cofnodion cyfarfod Anghysbell a gynhaliwyd ar 18 Hydref, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Cynghorwyr P. Drake, W.A. Hennessy, J.M. Norman.

Hefyd yn bresennol: Mr. P. Harper (Ymgeisydd), K. Evans (Swyddog Trwyddedu – Cyngor Bro Morgannwg), R. Price (Cyngor Swyddog Cyfreithiol – Bro Morgannwg), A. Rudman (Cyngor Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu – Bro Morgannwg), Mr. Guignard (Parti â Diddordeb), Ms. Jones (Parti â Diddordeb), Mrs. Thomas (Parti â Diddordeb), Mr. Lawrence (Parti â Diddordeb) and Mr. Groves (Parti â Diddordeb)

(a) Cyhoeddiad -

Cyn i fusnes y Pwyllgor ddechrau, darllenodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu y datganiad a ganlyn: “A gaf i atgoffa pawb oedd yn bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio’n fyw yn ogystal â’i recordio ar y rhyngrwyd a bod y recordiad hwn yn cael ei archifo i’w weld yn y dyfodol. ”

(b) Penodi Cadeirydd –

PENDERFYNWYD – Penodi'r Cynghorydd P. Drake yn Gadeirydd am gyfnod gwrandawiad yr Is-bwyllgor

(c) Datganiadau Buddiant –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

(d) Deddf Trwyddedu 2003 – Amrywio Trwydded Safle – Golden Lion, 69 Glebe Street, Penarth, CF64 1EF (AT) -

Croesawodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol i gyfarfod yr Is-bwyllgor a diolchodd i’r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu am wneud cyflwyniadau.

Yn dilyn hynny, gwahoddodd y Cadeirydd K. Evans, Rheolwr y Tîm Trwyddedu, i gyflwyno'r adroddiad i'r Is-bwyllgor, a ddywedodd mai bwriad yr adroddiad oedd ystyried cais a gyflwynwyd gan J.W. Bassett Pubs & Bars Ltd i amrywio Trwydded Safle o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 mewn cysylltiad â’r Golden Lion, 69 Glebe Street, Penarth CF64 1EF.

Ar hyn o bryd roedd y Safle yn elwa ar Drwydded Safle; PRM AS0139, ynghlwm yn Atodiad A i'r papurau, a oedd yn awdurdodi'r gweithgareddau trwyddedadwy canlynol yn ystod yr oriau a nodir:

Gwerthu Alcohol i'w Yfed ar ac oddi ar y Safle:
Dydd Llun i ddydd Iau 10:00 tan 23:00
Dydd Gwener a dydd Sadwrn: 10:00 tan 00:00
Dydd Sul: 12:00 tan 22:30
Dydd Gwener a dydd Sadwrn Gŵyl y Banc: 10:00 tan 00:30
Dydd Sul Gŵyl y Banc: 11:00 tan 23:30
Noswyl Nadolig a Dydd San Steffan awr ychwanegol
Diwedd yr oriau trwyddedu ar Nos Galan tan ddechrau'r oriau trwyddedu ar Ddydd Calan

Perfformiad Cerddoriaeth Fyw (Dan Do) a Pherfformiad Cerddoriaeth a Recordiwyd (Dan do):
Dydd Llun i ddydd Sadwrn: 10:00 tan 23:00
Dydd Sul: 12:00 tan 22:30
Noswyl Nadolig a Dydd San Steffan i ddod i ben am 01:00
Nos Galan i ddod i ben am 01:00

Gwnaed y cais i amrywio'r Drwydded Safle ar 22 Awst 2024 ac fe'i nodwyd yn Atodiad B yr adroddiad.  Roedd y Cais yn ceisio ymestyn yr amseroedd agor a gweithgaredd trwyddedadwy fel a ganlyn:

Gwerthu alcohol i'w yfed ar ac oddi ar y Safle
Dydd Llun i Ddydd Sul 08:00 tan 00:00

Darparu Cerddoriaeth wedi'i Recordio (Dan do)
Dydd Llun i Ddydd Sul 08:00 tan 00:00

Darparu Cerddoriaeth Fyw (Dan do)
Dydd Llun i Ddydd Sul 11:00 tan 23:00

Oriau Agor
Dydd Llun i ddydd Sul 08:00 tan 00:30

Roedd y cais hefyd yn cynnwys Atodlen Weithredu, a oedd yn nodi'r camau yr oedd yr Ymgeisydd wedi cynnig i'w cymryd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu a dywedodd fod y camau wedi'u nodi yn Adran 16 Atodiad B.

Ychwanegodd y Swyddog Trwyddedu fod cerddoriaeth Fyw ac wedi'i Recordio wedi ei ddadreoleiddio'n rhannol gan Ddeddf Cerddoriaeth Fyw 2012 ac felly nid oedd angen unrhyw awdurdodiad ar gyfer cerddoriaeth fyw nac wedi'i recordio sy'n digwydd yn y Safle dan sylw, rhwng 08:00 a 23:00, gerbron cynulleidfa 500 o bobl neu lai. Felly, roedd gofyn i'r Is-bwyllgor ystyried cerddoriaeth Fyw ac wedi'i Recordio rhwng 23:00 a 00:00 yn unig.
.

Roedd 19 o sylwadau wedi dod i law yn ystod y cyfnod ymgynghori gan drigolion lleol mewn cysylltiad â'r cais. Roedd y sylwadau'n gwrthwynebu'r estyniad y gofynnwyd amdano i’r oriau gweithgaredd trwyddedadwy gan eu bod o’r farn bod hyn yn tanseilio'r amcanion trwyddedu. Darparwyd copi o'r sylwadau i'r Is-bwyllgor yn Atodiad C i'r papurau ac roedd yr Ymgeisydd wedi darparu datganiad mewn ymateb i’r rhain a nodir yn Atodiad D.

Dywedodd y Swyddog Trwyddedu fod rhai o'r sylwadau yn cyfeirio at y Safle yn rhwystro'r briffordd a bod hwn yn fater ar wahân a oedd yn cael ei drafod y tu allan i'r gyfundrefn drwyddedu gan adran Priffyrdd y Cyngor.

I gloi, cyfeiriodd y Swyddog Trwyddedu at baragraff 2.7 yr adroddiad a oedd yn nodi na chafwyd unrhyw sylwadau gan yr un o'r Awdurdodau Cyfrifol, fodd bynnag, ychwanegodd fod sylwadau wedi'u derbyn yn wreiddiol gan Heddlu De Cymru a gafodd eu tynnu'n ôl wedyn. Yn lle hynny, roedd yr Ymgeisydd a Heddlu De Cymru wedi cytuno i amodau gael eu gosod ar y drwydded. Cyhoeddwyd copi o'r amodau hynny a'u dosbarthu i aelodau'r Is-bwyllgor cyn y cyfarfod fel gwybodaeth atodol i'r papurau.

Roedd yr amodau y cytunwyd arnynt yn cynnwys cynnal system teledu cylch cyfyng, polisi Her 25, arwyddion yn dweud wrth gwsmeriaid am adael y Safle mewn modd tawel, cadw cofnod o ddigwyddiadau ac i neb o dan 18 oed i aros ar y safle ar ôl 21:00.

I gloi, dywedodd y Swyddog Trwyddedu fod gofyn i'r Is-bwyllgor benderfynu ar y cais gan ystyried Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor, y Canllawiau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref o dan Adran 182 Deddf Trwyddedu 2003, y cais a gyflwynwyd, ac unrhyw sylwadau a gyflwynwyd nad oeddent wedi’u tynnu yn ôl erbyn dyddiad y cyfarfod.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau i'r Swyddog Trwyddedu, felly gwahoddodd y Cadeirydd yr Ymgeisydd, Mr Paul Harper, i gyflwyno’i achos.

Dywedodd yr Ymgeisydd fod y cais wedi'i wneud er mwyn i'r Safle allu parhau i werthu yn hwyrach tan hanner nos yn ystod yr wythnos. Roedd yr oriau hwyrach y gwnaed cais amdanynt wedi eu treialu o dan Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro yn gynharach yn y flwyddyn. Roedd yr Ymgeisydd wedi bod yn rheolwr y Safle ers 16 mlynedd, felly roedd yn ystyried ei hun yn rhan o'r gymuned leol. Roeddent wedi ymateb i bryderon y trigolion yn rhinwedd y ddogfen a nodir yn Atodiad D a phwysleisiodd y gallai trigolion lleol gysylltu â'r Ymgeisydd ar unrhyw adeg.

Gofynnodd y Cynghorydd Norman wedyn a oedd prydau bwyd yn cael eu gweini ar y Safle ac o ba amser? Mewn ymateb, dywedodd yr Ymgeisydd fod bwydlen lawn ar gael yn y Safle tan 21:00 a than 22:00 pan gynhelir digwyddiadau chwaraeon. Mewn ymateb i gwestiwn atodol gan y Cynghorydd Norman ynghylch pryd y dechreuodd y gegin ar y Safle baratoi prydau bwyd, dywedodd yr Ymgeisydd fod coginio yn dechrau am 12.00 canol dydd bob dydd ar hyn o bryd gan fod y dafarn yn agor am 11.00 y bore ar hyn o bryd. Pwysleisiodd yr Ymgeisydd mai'r cais a wnaed oedd gweini brecwast cynnar i bobl ar wyliau neu gwsmeriaid ar ddiwrnodau chwaraeon rhyngwladol yn unig ac na fyddai’n rhywbeth a fyddai'n digwydd yn aml.

Yna holodd y Cynghorydd Hennessy yr angen i werthu alcohol o 8.00 y bore, a chyfeiriodd yr Ymgeisydd y Cynghorydd Hennessy i’r rhesymau a nodwyd yn ei ymateb blaenorol i gwestiynau'r Cynghorydd Norman.

Nid oedd unrhyw gwestiynau pellach i'r Ymgeisydd, felly wrth gyfeirio at y weithdrefn ar gyfer y cyfarfod, nododd y Cadeirydd nad oedd unrhyw gynrychiolwyr o’r Awdurdod Cyfrifol yn bresennol yn y cyfarfod, felly gwahoddodd yr holl Bartïon â Diddordeb i gyflwyno eu sylwadau.

Cadarnhaodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd enwau a threfn y Partïon â Diddordeb a oedd wedi ymuno â'r cyfarfod ac, yn dilyn pwynt o eglurhad a godwyd gan Swyddog Cyfreithiol Bro Morgannwg, cadarnhaodd y Swyddog Trwyddedu, yn ei dro, rifau’r sylwadau ysgrifenedig perthnasol fel a ganlyn:

1. Mr Guignard – Sylw 18.
2. Ms Jones – Sylw 12.
3. Mrs Thomas – Sylw 5.
4. Mr Lawrence – Sylw 19.
5. Mr Groves – Sylw 2.

Dywedodd Mr Guignard fod yr ardal o amgylch y Safle yn un breswyl i raddau helaeth a phe bai'r cais yn cael ei gymeradwyo, byddai cynnydd yn y traffig a’r sŵn a fyddai'n effeithio ar brisiau eiddo cyfagos. Dywedodd fod mater blaenorol mewn cysylltiad â chasgenni y tu allan i'r Safle wedi cael sylw. Ychwanegodd, yn ei farn bersonol, fod yr oriau agor presennol ar gyfer y Safle yn gweithio'n rhesymol dda a bod unrhyw faterion blaenorol a amlygwyd i reolwr y Safle wedi eu datrys. Roedd yna flwch chwarae caneuon da yn bresennol yn y Safle, ond byddai’r sŵn yn cario trwy'r drws pan fyddai pobl yn mynd i mewn ac allan o'r Safle i ysmygu.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Norman, dywedodd Mr Guignard fod ei bartner wedi byw yn yr eiddo am 39 mlynedd.

Wrth gael ei holi gan y Cynghorydd Hennessy ynghylch a oedd gan Mr Guignard unrhyw wrthwynebiadau i'r oriau agor presennol, dywedodd Mr Guignard fod adroddiadau sŵn yn cael eu gwneud yn rheolaidd i'r Safle ac, ers i'r gwaharddiad ysmygu ddod i rym, byddai unigolion y tu allan i'r eiddo a fyddai'n achosi sŵn annerbyniol yn eithaf hwyr gyda'r nos. Pwysleisiodd Mr Guignard hefyd nad oedd ganddo unrhyw beth yn erbyn y rheolwr presennol, Mr Harper, fodd bynnag, roedd yn pryderu, pe bai Mr Harper yn gadael y Safle na fyddai'r sefyllfa gystal i drigolion lleol.

Yna dywedodd Ms Jones fod ei phrif bryderon mewn cysylltiad â sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roedd problemau sŵn yn cael eu hachosi gan unigolion yn gadael y Safle ac yn siarad tu allan ar ôl cau. Roedd Ms Jones yn byw dau dŷ i lawr o'r Safle ac roedd sŵn yn broblem i'w theulu ifanc pan oedd unigolion yn siarad y tu allan ac o dan ffenestri’r ystafelloedd gwely. Felly, ei phryder mewn cysylltiad â'r cais newydd oedd y byddai'r oriau agor cynharach yn gwaethygu’r materion sy’n cael eu hwynebu eisoes ac na fyddai ei theulu'n cael llawer o seibiant ohono. Roedd trigolion lleol hefyd yn pryderu, pe bai'r drwydded amrywio yn cael ei

gymeradwyo’n barhaol, nad oedd dim i atal y digwyddiadau untro fel y cynghorir gan yr Ymgeisydd rhag digwydd yn amlach. Roedd yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn frawychus iddi hi a'i theulu, ac roedd hi wedi gweld unigolion yn troethi y tu allan ac yn curo drysau a ffenestri ei heiddo. O ganlyniad, roedd hi wedi teimlo'r angen i osod camerâu diogelwch yn ei heiddo. Dywedodd Ms Jones ei bod wedi cysylltu â'r Safle o'r blaen mewn cysylltiad â materion a achoswyd gan ddanfoniadau i'r Safle, ond roedd mynd at y Safle mewn cysylltiad â sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn frawychus iawn ac nid oedd yn hawdd ei wneud.

Mewn ateb i gwestiwn a ofynnwyd gan y Cynghorydd Norman, dywedodd Ms Jones ei bod wedi bod yn byw yn barhaol yn ei heiddo ers pump i chwe blynedd, tra bu’r Safle yn weithredol. Fodd bynnag, roedd ei theulu ehangach wedi bod yn byw yn yr eiddo ers dros 50 mlynedd, ac fe wnaeth y Cadeirydd fanteisio ar y cyfle ar y pwynt hwn i ychwanegu bod y Safle dan sylw wedi bodoli fel tafarn ers oes Fictoria.

Gofynnodd y Cynghorydd Hennessy wedyn a allai Ms Jones ddarparu mwy o wybodaeth am yr ymddygiad gwrthgymdeithasol a welwyd. Atebodd Ms Jones drwy ddweud bod unigolion wedi gadael gwydrau yng nghyffiniau ei heiddo a oedd weithiau wedi’u torri, a byddai unigolion hefyd yn agor poteli cwrw yn erbyn ei siliau ffenestri. Roedd unigolion wedi curo'n uchel iawn ar ei drws ffrynt ac roedd modd clywed rhegi pe bai unigolion yn cael anghytundeb ar y stryd.

Pan ofynnodd y Cadeirydd iddi ynghylch pwy y cafodd yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol eu hadrodd iddynt yn flaenorol, dywedodd Ms Jones nad oedden nhw eu hunain wedi adrodd yn swyddogol am unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol hyd yma a bod cymdogion lleol eraill wedi ceisio ymdrin â'r materion eu hunain. Fodd bynnag, roedd Ms Jones wedi gofyn am gymorth y rheolwr mewn cysylltiad â mater hanesyddol a achoswyd gan ddanfoniadau i'r Safle.

Yna holodd y Cynghorydd Norman a oedd yr heddlu wedi eu galw mewn cysylltiad ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y cyffiniau a dywedodd Ms Jones, pe bai ymladd difrifol yn digwydd ar y stryd, roedd un neu ddau o'r cymdogion lleol wedi adrodd y mater fel arfer. Ychwanegodd Ms Jones fod tafarn ar wahân hefyd yn y cyffiniau agos a bod rheolwr y Safle hwnnw wedi rhoi manylion cyswllt iddi rhag ofn y bydd unrhyw broblemau. Mewn ymateb i gwestiwn atodol gan Aelodau'r Panel, cadarnhaodd Ms Jones na allai, â llaw ar ei chalon, ddweud o ba sefydliad yr oedd yr unigolion sy'n achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi dod ohono, ond roedd yn debygol bod unigolion yn teithio o gyfeiriad y Safle dan sylw.

Yna, dymunodd Mrs. Thomas adleisio'r sylwadau a roddwyd hyd yma a nododd yr ymateb cryf a dderbyniwyd gan drigolion lleol mewn cysylltiad â'r cais. Cynigiodd ei dealltwriaeth bod angen i’r Safle weithredu fel busnes ond dywedodd fod angen cydbwysedd rhwng anghenion busnes a lles trigolion lleol. Nodwyd hefyd, pe bai'r cais am amrywiad yn cael ei gymeradwyo’n barhaol, na fyddai unrhyw fecanwaith i drigolion lleol wrthwynebu, fel y digwyddodd gyda hysbysiadau digwyddiad dros dro y gwnaed cais amdanynt yn hanesyddol. Teimlwyd bod y cyfrifoldeb ar drigolion lleol i hysbysu'r Safle am unrhyw broblemau a oedd yn codi o'r Safle, fodd bynnag, nid lle trigolion lleol oedd plismona'r Safle ond yn hytrach y trwyddedai. Cydnabu Mrs. Thomas yr ymatebwyd i sefyllfa yn y gorffennol mewn cysylltiad â biniau y tu

allan i'r Safle, ond ymddengys nad oedd ymateb rhagweithiol gan y rheolwyr yn y Safle.  O ran cyswllt â'r heddlu, dywedodd Mrs. Thomas nad oedd hi wedi cysylltu â'r heddlu hyd yn hyn gan nad oedd yn teimlo ei bod yn briodol i drafferthu'r heddlu gyda materion nad ydynt yn rhai brys o ystyried pwysau cyfredol a chyhoeddus ar wasanaethau cyhoeddus.  Hefyd, nid oedd yn hawdd gwneud cwynion yn uniongyrchol i’r Safle.  Aeth Mrs. Thomas ymlaen wedyn i ddweud mai anaml iawn yr oedd hi’n gallu cerdded ar y palmant yn union y tu allan i'r Safle oherwydd bod nifer yr ysmygwyr yn sefyll yn union y tu allan.  Nid oedd yn dda i blant Mrs. Thomas gerdded heibio mwg sigaréts y tu allan i'r Safle ac roedd y teulu wedi canfod bod y bobl sy’n mynychu’r Safle yn ddynion yn bennaf ac yn eithaf brawychus, yn ogystal â gweld troethi ar y stryd a gadael gwydr wedi’i dorri ar y llawr.  Roedd gan breswylwyr yr hawl i deimlo'n ddiogel yn eu cymuned leol a llygredd a achosir gan y Safle mewn cysylltiad â goleuadau, sŵn, sbwriel a chwydu.  Byddai sŵn o'r Safle yn uwch yn ystod digwyddiadau chwaraeon ac yn glywadwy o'r ardd gwrw yn y Safle.  Roedd y Safle wedi'i leoli o fewn ardal deuluol ac felly roedd angen cydbwysedd.  Ystyriwyd bod yr estyniad i'r oriau y gwnaed cais amdano yn ormodol ac nad oedd yn briodol ar gyfer yr ardal.

Mewn ymateb i sylw a godwyd gan y Cynghorydd Norman na fyddai'r oriau agor diweddarach yn amser o'r nos i deuluoedd ifanc fod yn mynd heibio’r Safle, ychwanegodd Mrs. Thomas, pe bai oriau'r drwydded yn cael eu hymestyn, yna byddai unigolion sy'n defnyddio'r Safle yn sefyll y tu allan i'r Safle lawer yn hwyrach gyda'r nos.  Felly, ni fyddai teuluoedd lleol yn cerdded heibio'r Safle ond byddent yn clywed y sŵn a gynhyrchir.

Yna cyfeiriodd y Cynghorydd Hennessy at sylwadau ysgrifenedig Mrs. Thomas a'r datganiad i'r ffaith y bu arogl canabis yn tarddu o'r ardd gwrw ac felly, holodd a oedd y mater wedi'i adrodd i'r awdurdodau.  Mewn ymateb, dywedodd Mrs. Thomas nad oedd hi wedi ystyried y mater yn ddigon difrifol i drafferthu'r heddlu ac amlygodd, pe bai'r arogl yn amlwg i drigolion lleol, yna byddai hefyd yn amlwg i’r staff sy'n gweithio yn y Safle.

Yna eglurodd y Cynghorwyr Drake a Hennessy gyda Mrs Thomas p’un a oedd ganddi unrhyw broblemau gyda'r oriau agor presennol a pha mor hir yr oedd wedi bod yn byw yn ei heiddo cyfagos, a chadarnhaodd Mrs. Thomas y bu’n byw yn ei heiddo ers 20 mlynedd a’i bod yn dymuno i'r Safle fod yn llwyddiannus, fodd bynnag roedd angen cydbwysedd mewn ardal breswyl.  Yn ddelfrydol, byddai'r oriau'n cael eu cwtogi ymhellach ond perchir mai busnes oedd y Safle, ac felly roedd angen cyfaddawd.

Dechreuodd Mr Lawrence ei sylwadau drwy ddweud wrth yr Is-bwyllgor y bu’n byw yn ei eiddo ers dros 45 mlynedd ac roedd y ffaith bod y Safle yn agos i’w eiddo wedi bod yn rhan o'i benderfyniad i brynu ei eiddo.  Roedd yn cofio’r Ymgeisydd yn cnocio ar ei ddrws yn flaenorol pan gymerodd awenau’r Safle am y tro cyntaf a nododd fod tafarndai'n gweithredu'n wahanol iawn yn y gorffennol, er enghraifft, gan nad oedd gerddi cwrw ac roedd unigolion yn cael ysmygu yn y lleoliad.  Ers i'r gwaharddiad ysmygu ddod i rym, nid oedd gan unigolion a oedd yn dymuno ysmygu unrhyw ddewis ond mynd i'r palmant y tu allan i'r Safle a oedd wedyn yn eu rhoi ar y stryd breswyl.  Roedd hyn wedi newid yr awyrgylch ar gyfer yr ardal o amgylch y Safle ac yn gysylltiedig â'i brif bryder ynglŷn â’r cais, hynny yw y cynnydd

posibl mewn sŵn gan unigolion sy'n defnyddio ac yn sefyll y tu allan i'r Safle. Dywedodd fod rhai o'r unigolion a oedd yn sefyll y tu allan i'r Safle yn gwrtais, fodd bynnag, nid oedd eraill, ac felly roedd yn teimlo ei fod yn agored i niwed wrth gerdded adref ar ôl gadael Safleoedd trwyddedig eraill. O ran sŵn, pan oedd drysau'r Safle ar agor, byddai'r aflonyddwch sŵn yn cynyddu ac, os byddai'r oriau ar gyfer y drwydded yn cael eu hymestyn, byddai unigolion yn sefyll ar y stryd breswyl yn llawer hwyrach yn y nos. Cydnabuwyd bod Rheolwr y Safle a'r staff yn weithgar wrth geisio annog pobl i adael y Safle yn dawel ond yn aml roedd pobl o dan ddylanwad alcohol yn anodd eu rheoli yn anwybyddu unrhyw arwyddion a allai fod yn eu cynghori. Dywedodd Mr Lawrence nad oedd ganddo unrhyw broblem gydag amseroedd agor yn gynnar yn y bore heblaw am y ffaith y byddai plant ifanc yn mynd yn ôl ac ymlaen heibio’r Safle ar eu ffordd i'r ysgol.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan y Cynghorydd Hennessy ynghylch beth oedd yr ysgolion agosaf i’r ardal breswyl, dywedodd Mr Lawrence fod Ysgol Gynradd Albert Road yn y cyffiniau ac felly roedd rhieni yn teithio i'r ysgol ac oddi yno o leiaf bedair gwaith y dydd yn aml.

Cytunodd Mr Lawrence â sylw’r Cynghorydd Norman fod plant oed ysgol eisoes yn pasio'r Safle yn ystod oriau ysgol o dan yr oriau trwyddedig presennol ac roedd yn cydnabod bod angen i'r Is-bwyllgor edrych ar y sefyllfa yn ei chyfanrwydd.

Yna dywedodd Mr Groves ei fod yn byw mewn eiddo gyfochr â’r Safle ac y bu’n gwneud hynny am bron i saith mlynedd gyda'i deulu ifanc, a fyddai’n cysgu yn nhu blaen yr eiddo yn aml yn seiliedig ar faint yr ystafell wely oedd ar gael. Roedd prif bryderon Mr Groves yn ymwneud â sŵn gormodol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a achoswyd gan y Safle fel unigolion yn curo ar fyrddau ac yn gweiddi o'r ardd gwrw a oedd yn anniddig i'w deulu ifanc. Yn ogystal, byddai unigolion sy'n gadael y Safle yn gwneud galwadau ffôn ac yn cael sgyrsiau yn ogystal â gyrru i ffwrdd o'r Safle yn swnllyd iawn a fyddai'n dihuno ei deulu. Byddai’r estyniad i'r oriau fel y gwnaed cais amdano yn golygu y byddai unigolion yn cael y cyfle i yfed mwy o alcohol, dros gyfnod hirach o amser, ac felly byddent yn swnllyd llawer hwyrach yn y nos. Nid mater i'r trigolion lleol oedd plismona ymddygiad yn y Safle a dywedodd Mr Groves na fyddai'n teimlo'n ddiogel i fynd i mewn i'r Safle i gwyno a byddai'n pryderu y byddai'r ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gwaethygu pe bai'n gwneud hynny. Ychwanegodd Mr Groves, pe bai'r oriau estynedig yn cael eu cymeradwyo, ni fyddai'r oriau cynnar yn cael eu defnyddio unwaith yn unig, wrth gydnabod y byddai cael y Safle ar agor yn fwy o fudd ariannol i'r busnes. Roedd ef o’r farn, pan nad oedd yr Ymgeisydd yn y Safle, y byddai'r safonau'n llithro.

Yna cyfeiriodd y Cynghorydd Drake at sylwadau ysgrifenedig Mr Groves a holodd yr oriau pan oedd wedi clywed y poteli gwydr yn cael eu gwagio. Mewn ymateb, dywedodd Mr Groves fod hyn cyn 9.00 p.m. hyd eithaf ei wybodaeth, er bod hyn yn hwyr gyda'r nos o safbwynt plentyn. Nid oedd cael gwydr wedi torri ar y llawr y tu allan i'r Safle yn ddiogel i blant ifanc ac er mai dim ond fel allanfa dân y dylid defnyddio'r fynedfa ochr i'r ardd gwrw, nid oedd y rheol hon yn cael ei chadw a gellid teimlo’r dirgryniadau wrth agor a chau'r drws y tu mewn i eiddo Mr Groves.

Yna holodd y Cynghorydd Hennessy a oedd Mr Groves wedi gwneud ymholiadau gyda rheolwr y Safle i symud y biniau sbwriel a chasgenni cwrw i ffwrdd o union y tu

allan i'r eiddo.  Mewn ymateb, dywedodd Mr Groves y cafodd y biniau eu symud pan godwyd cwynion gyda'r Ymgeisydd ac roedd yr Ymgeisydd wedi bod yn dda i gysylltu ag ef, ond nid oedd yn bresennol yn y Safle bob amser.  Hefyd, gan fod gwrthwynebiadau wedi'u gwneud mewn cysylltiad â'r casgenni y tu allan i'r eiddo, ymatebwyd i'r gŵyn a symudwyd y casgenni.  Fodd bynnag, roedd yn bryder pe bai'r oriau agor yn cael eu hymestyn, y byddai angen mwy o alcohol ac felly byddai nifer y casgenni yn cynyddu ac i’w gweld o’r stryd eto.

Heb unrhyw Bartïon eraill â Diddordeb yn bresennol i siarad â nhw, rhoddodd y Cadeirydd gyfle i bob parti godi unrhyw gwestiynau neu bwyntiau o eglurhad ar y sylwadau a glywyd hyd yn hyn.

Yna gofynnodd Ms Jones pam y gofynnwyd i'r trigolion lleol sy'n darparu sylwadau llafar pa mor hir yr oeddent wedi byw yn agos i'r Safle a dywedodd y Cynghorydd Norman fod y cwestiwn wedi'i godi i fesur faint o amser yr oedd trigolion lleol wedi profi'r pryderon.

Mewn ymateb i sylw a godwyd gan y Swyddog Cyfreithiol nad oedd unrhyw sylwadau wedi'u derbyn gan Adran Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor, ac felly nid oedd unrhyw dystiolaeth o niwsans statudol ar ffurf dirgryniadau sy'n deillio o'r Safle, dywedodd Mr Groves a Mrs Thomas nad oeddent yn ymwybodol bod yn rhaid iddynt adrodd cwynion sŵn i Awdurdod Iechyd yr Amgylchedd a dywedodd y dylai trigolion lleol fod wedi cael cymorth er mwyn gwneud cwyn o'r fath.  Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog Cyfreithiol ei bod yn wybodaeth gyhoeddus y gallai trigolion adrodd cwynion am sŵn i Adran Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor ac y byddai'r Pwyllgor yn ystyried y sylwadau ysgrifenedig, yn ogystal â'r hyn a ddywedwyd gan yr holl Bartïon â Diddordeb yn ystod y cyfarfod, wrth wneud eu penderfyniad.

Heb unrhyw gwestiynau pellach, gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan y Swyddog Trwyddedu unrhyw sylwadau pellach yr oedd am eu codi i grynhoi yr achos, a dywedodd y Swyddog Trwyddedu nad oedd unrhyw beth pellach i'w ychwanegu.

Wedyn gwahoddodd y Cadeirydd yr Ymgeisydd i wneud ei ddatganiad cau. Dywedodd yr Ymgeisydd fod biniau'r Safle y tu mewn i'r ardd gwrw bellach ac nad oedd y casgenni i’w gweld o’r stryd mwyach ond yn hytrach wedi'u cloi a'u sicrhau. Roedd dau flwch llwch wedi’u gosod y tu allan i'r Safle ac roedd y palmentydd y tu allan i'r Safle yn cael eu sgubo dair i bedair gwaith bob dydd.  Ychwanegodd yr Ymgeisydd fod gofyn i unigolion ysmygu y tu allan i'r eiddo ond nad oeddent yn cael mynd â'u diodydd y tu allan gyda nhw.  Pwysleisiodd na fyddai amseroedd agor y bore y gwnaed cais amdanynt yn digwydd yn aml ac nad oedd o'r farn y dylai fod angen i drigolion blismona'r Safle, fodd bynnag pe na bai'r rheolwyr yn y Safle yn ymwybodol o faterion, ni ellid gweithredu atebion angenrheidiol.  Roedd dau oruchwyliwr Safle da iawn ar waith a oedd mewn cysylltiad rheolaidd â'r Ymgeisydd. Nid oedd giât gefn y Safle yn cael ei defnyddio ar ôl 11.00 p.m. ac nid oedd yn bosibl cloi'r giât gefn gan ei bod yn cael ei hystyried yn allanfa dân.  Yn unol â chydweithwyr Heddlu De Cymru, roedd gan y Safle bolisi llym dim cyffuriau ac felly roedd staff yn arddangos dim goddefgarwch tuag at unrhyw fath o ddefnydd cyffuriau.  Os oedd defnydd o gyffuriau yn cael ei nodi, roedd gofyn i’r unigolion dan sylw adael y Safle ar unwaith ac roedden nhw’n cael eu gwahardd am oes.

Yna gofynnodd y Cadeirydd i Aelodau'r Is-bwyllgor am eu cwestiynau terfynol mewn cysylltiad â'r achos a gofynnodd gwestiwn eu hunain mewn cysylltiad â gwaredu fêpiau yn y Safle.  Mewn ymateb, dywedodd yr Ymgeisydd fod fêpiau tafladwy yn cael eu gwaredu yn y gwastraff cyffredinol ar hyn o bryd, fodd bynnag o ystyried pryderon y Cadeirydd mewn cysylltiad â hyn ac achosi tanau yn sgil peidio â gwaredu fêpiau yn y modd cywir, byddai'r mater yn cael ei ddatrys yn dilyn y cyfarfod.

Cydnabu'r Cynghorydd Hennessy ddatganiad blaenorol yr Ymgeisydd na fyddai agor y Safle o 8.00am yn ddigwyddiad rheolaidd, fodd bynnag gofynnodd i'r Ymgeisydd a allai roi unrhyw sicrwydd na fyddai caniatáu'r amrywiad yn arwain at yr amseroedd agor cynharach yn digwydd yn rheolaidd, a dywedodd yr Ymgeisydd nad oedd gan reolwyr yn y Safle unrhyw gynlluniau na dymuniad i agor y Safle yn gynharach yn rheolaidd.

Heb unrhyw bartïon eraill i ymgynghori â nhw, a heb sylwadau pellach gan yr Is-bwyllgor, cadarnhaodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd y byddai'r Is-bwyllgor yn trafod yn breifat, gyda'r penderfyniad ar y cais yn cael ei roi i bob parti gan yr Awdurdod Trwyddedu o fewn pum diwrnod gwaith.

Yn dilyn hyn, gwnaeth yr Ymgeisydd, y Partïon â Diddordeb a’r Swyddog Trwyddedu a oedd yn bresennol ddatgysylltu o'r cyfarfod o bell, a chadarnhawyd hyn gan y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu, a thrafododd yr Is-bwyllgor Trwyddedu y cais yn breifat.

PENDERFYNWYD – Caniatáu’r cais am amrywio’r oriau y gwnaed cais amdanynt, ynghyd â’r amodau y cytunwyd arnynt gyda Heddlu De Cymru.

<u>Rhesymau dros y penderfyniad</u>

Wrth ddod i'w benderfyniad, yr oedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y cais ynghyd â phawb a oedd wedi gwneud cyflwyniadau ysgrifenedig a llafar.  Roedd wedi cymryd i ystyriaeth Ddeddf Trwyddedu 2003 fel y’i diwygiwyd, yn arbennig yr Amcanion Trwyddedu a Chanllawiau’r Swyddfa Gartref ynghyd â Datganiad Polisi Trwyddedu’r Cyngor.

Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd wedi dangos amser sylweddol o weithredu'r safle o dan y drwydded bresennol heb fawr ddim digwyddiad.  Nid oedd unrhyw sylwadau gan yr heddlu mewn perthynas â throsedd ac anhrefn ac ni ellid priodoli'r materion hynny y cyfeiriwyd atynt gan bobl eraill yn uniongyrchol i weithrediad presennol y safle.  Yn yr un modd, ni ellid priodoli materion yn ymwneud â sŵn yng nghyffiniau'r eiddo i reolaeth yr eiddo ac ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau gan Adran Iechyd yr Amgylchedd yn nodi materion sŵn yn y gorffennol sy'n gysylltiedig â'r eiddo a oedd yn gyfystyr â niwsans statudol cyn y cyfarfod. Pwyllgor.  Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon, pan godwyd materion gyda'r eiddo, bod yr ymgeisydd wedi mynd i'r afael â'r rhain ar y cyfan er boddhad y trigolion.  Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon, pan oedd y safle wedi treialu oriau trwyddedu estynedig, nad oedd unrhyw un o'r Amcanion Trwyddedu wedi'u hysgogi. Roedd yr Is-bwyllgor yn ymwybodol petai'r amrywiad yn effeithio ar yr Amcanion

Trwyddedu ac yn seiliedig ar dystiolaeth newydd a/neu ymchwiliadau gan yr Awdurdodau Cyfrifol, y gellid adolygu'r drwydded.